

Mynediad at Ddiploma AU - Cyfrifiadura Cymhwysol Lefel 3 (Llawn-Amser)

Diploma Mynediad i Addysg Uwch – Nod Cyfrifiadura Cymhwysol yw paratoi dysgwyr ar gyfer astudio mewn Addysg Uwch mewn rhaglen gyfrifiadura neu TG. Mae hwn wedi'i leoli yn yr adran Cyfrifiadura a Thechnoleg Gwybodaeth (CIT).

Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i ddarparu unedau arbenigol sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer y sector cyfrifiadura a TG. Ei nod yw rhoi i ddysgwyr y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau megis codio, datblygu meddalwedd a dylunio gwefannau, sydd eu hangen arnynt i baratoi ar gyfer cyrsiau addysg uwch neu gyflogaeth gysylltiedig.

Mae'r Diploma Cyfrifiadura Cymhwysol yn darparu cyfleoedd datblygu gyrfa a llwybr dilyniant clir i addysg uwch, rhaglenni gradd a datblygiad proffesiynol o fewn y meysydd Cyfrifiadura a TG.

Gofynion Mynediad

Gellir gwneud ceisiadau gan ddysgwyr sydd wedi bod allan o addysg orfodol am 3 blynedd neu fwy a / neu nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau ffurfiol; fodd bynnag, bydd angen cynnal asesiad sgiliau a chyfweliad i bennu addasrwydd ar gyfer y cwrs.

Nid oes angen i ddysgwyr sydd â TGAU Mathemateg ac Iaith Saesneg ar radd C neu'n uwch gynnal yr asesiad sgiliau ond bydd angen iddynt fynd i gyfweliad.

Dylai fod gan ymgeiswyr warediad cadarnhaol a delio'n dda â heriau a bod â chymhelliant, dibynadwy, aeddfed a bod â thystiolaeth o brofiad bywyd a dylent ddangos diddordeb brwd mewn cyfrifiadura.

Rhagolygon Gyrfa

Mae'r cymhwyster yn rhoi cyfle i ddysgwyr symud ymlaen i raddau sylfaen mewn meysydd TG neu Gyfrifiadura, BSc mewn Cyfrifiadura, BSc mewn Rheoli TG, prentisiaethau gradd mewn maes cysylltiedig a chyflogaeth yn y sector cyfrifiadurol, gan gynnwys dylunio graffig, datblygu gwe, codio, cymorth technegol a datblygu meddalwedd.

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre



Modiwlau'r cwrs

- Prosiect Ymchwilio / Traethawd Estynedig
- Mathemateg ar gyfer Cyfrifiadura
- Systemau Gwybodaeth
- Datblygu Meddalwedd
- Systemau Cyfrifiadurol a Phensaernïaeth Rhwydwaith
- Datblygu Gwefan
- Dylunio Cyfrifiaduron
- Mathemateg
- Sgiliau cyfathrebu

Asesiad

Bydd addysgu a dysgu yn digwydd trwy broses o ddarlithoedd, sesiynau tiwtorial, seminarau, trafodaethau, arddangosiadau, dysgu cyfunol a gwaith grwp. Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu gan adroddiadau ysgrifenedig, portffolios ymarferol ac asesiadau ar sail arholiadau.

Costau Ychwanegol

Bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â chwrs.

DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

1Y

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre

